# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Fawrth 4ydd, 2025

## yn Neuadd Bentref Coedybryn.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ), Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Rob Jones, Cyng. Teifi Evans, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Osian Davies, Cyng. Maldwyn Lewis

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Llyr Evans, Cyng Carol Davies a'r Cyng. Mark Davies

**2. Canolfan Byw'n Annibynnol, Penmorfa**

Pleser oedd croesawu Melinda Goodwin o Ganolfan Byw'n Annibynnol ym Mhenmorfa i siarad am yr adnoddau sydd ar gael a'r gwasanaeth maent yn gynnig. Agorwyd y ganolfan yn Ebrill 2024 ac maent yn dîm bach sy'n ganolfan lle gall pobl fynd am gymorth i fyw'n annibynnol. Mae'r ganolfan wedi ei lleoli yn Aberaeron – canol y sir ac mae ar agor yn ddyddiol o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Mae gwahanol ddigwyddiadau ymlaen bob dydd yn ogystal a digwyddiadau rheolaidd.

- Ystafell Nam ar y Golwg, Canolfan Gwybodaeth, Ystafell smart, Cegin wedi ei addasu, Cydweithio gyda'r gwasanaeth tân ac maeny yn cydwithio gyda Havav a Gofal Cantre. Mae modd cael benthyg offer o'r ganolfan. Mae gwybodaeth yno am drafnidaieth, cymorth ariannol, cyrsiau amrywiol ac ystafell trin â llaw. Mae hon bob amser yn ganolfan groesawgar ac mae angen gwell cysylltiad gyda'r meddygfeydd lleol.
- 'Ask Sara' – Offeryn Hunangymorth ar-lein. Ceir yma syniadau am bethau i brynnu, y cymorth sydd ar gael ac mae nifer o asesiadau i wneud ar lein i helpu pobl mewn gwahanol sefyllfaoedd.
- Gwasgu Botwm Telegofal – mae'r nifer wedi cynyddu tipyn o 60 i 210 o bobl sy'n defnyddio'r teclyn hwn. Mae dau becyn ar gael – y rhataf sy'n £3.90 yr wythnos ac mae'n gweithio tua 300medr o safle'r bocs. Mae pecyn arall ar gael hefyd sy'n £7.20 yr wythnos ac mae'n cynnwys tipyn mwy o offer technegol i gadw pobl yn ddiogel. Gall hwn atgoffa am feddyginiaeth, cynorthwyo os yn syrthio ac mae'n cynnwys GPS sy'n gweithio o fewn y cartref ac allan o amgylch y lle.
- Mae pawb mae'n siwr â chysylltiadau fyddai'n medru gwneud defnydd o'r ganolfan werthfawr hon.

**3. Datgan Diddordeb**

DIM

**4. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**4.1 -** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion Chwerfor a chynigiodd y Cyng.Sharon Thomas eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng.Teifi Evans

**5. Materion yn codi o'r cofnodion**

**5.1** -Llwybr Cerdded. Mae e-byst wedi bod yn ystod y mis rhwng y Cynghorwyr ac mae'r gwaith wedi cael eu glustnodi i Gerwyn James. Mae'r Gadeiryddes wedi cael caniatâd ffermwyr lleol Blaenbachcrydd a Blaenllan i dorri'r cloddiau ar y llwybr hwn.

**5.2** - Sticeri ar y biniau halen. Action Graphics 20 x A5 =£45

Mae angen holi y Cyng Mark Davies am bris hefyd cyn penderfynnu.

**5.3** – Cyfarfu y Cynghorwyr Sian Williams a Maldwyn Lewis gyda Carwyn o Boomerang ac mae'r gwaith wedi cychwyn ar adnewyddu arwydd T Llew Jones.

**5.4** – Cyrsiau Toolkit gan Un Llais Cymru. Mae dyddiad wedi trefnu i gyfarfod i drafod Toolkit gyda'r holl gynghorwyr ar nos Fawrth Mawrth 11eg yng Nghoedybryn. Bydd angen edrych beth sydd angen ffocysu arno bennaf, ond gall y broses o weithio trwyddo gymryd hyd at 2 flynedd i'w gwblhau'n llawn.

**5.5** – Diolchwyd i'r Clerc Rhian Jones am ei gwaith a nodwyd fod tipyn wedi cael ei sortio allan tra bu yn ei swydd. Nodwyd fod gwaith ers 2018 oedd angen ei gwblhau wedi cael ei wneud bellach felly dylai gwaith ei olynnydd fod tipyn yn haws. Bydd angen chwilio Clerc newydd mor gynted a phosib a nodwyd efallai byddai'n syniad holi rhywun sy'n gwneud y swydd yn barod mewn cyngor cyfagos. Penderfynnwyd holi Catrin o Beulah. Bydd angen holi Un Llais Cymru beth sy'n digwydd yn absenoldeb y Clerc am yr SAC.

**5.6** – Bydd angen i'r Cadeirydd gwblhau'r adroddiad blynyddol erbyn diwedd y flwyddyn cyn i'r Cadeirydd newydd gymryd drosodd.

**5.7** – Bydd angen diweddaru y rhestr asedau ac ychwanegu safle y meinciau, potiau blodau de-fibs a'r blychau halen.

**6. Cyrsiau**

**6.1** – Mae gweminarau ar gael am ddim – rhestr ar gael.

**7. Materion y Cynghorydd Sir -**

**7.1 -** Derbyniwyd ymddiheuriad am fethu'r cyfarfod diwethaf.

**7.2** – Mae cyllid y Cyngor am y flwyddyn ariannol wedi ei basio yr wythnos hon – dros 209miliwn, sef codiad o 9.3% yn nhreth y cyngor. Oherwydd hyn ni fydd torriadau yn y gwasanaethau eleni ond bydd 4 swydd newydd yn cael ei greu ar gyfer swyddogion gorfodi cynllunio.

**8. Diweddariad Awdit**

**8.1** –Mae llythyr wedi mynd at Gwyn Jones, Awdit Mewnol yn holi a yw'n hapus i gymryd y swydd am y dair mlynedd nesaf. Cytunodd i hyn am £150 y flwyddyn.

**9. Gohebiaeth**

**9.1 –** Ymgynghoriad ar Canllawiau Cynllunio drafft

**9.2** – Clic – casgliadau sbwriel, wedi ymateb gyda manylion cysylltu yn ogystal a chyfeiriadau ond dal disgwyl ymateb nol wrthynt.

**9.3** – Rhaglen arolwg etholiadol.

**9.4** – Gwybodaeth gan Tim Cymorth Costau Byw

**9.5** – Gwybodaeth gan yr Heddlu a throseddau.

**10. Cynllunio**

**10.1 –** Pods yn Rhydlewis, Llwyn Iwan. Apel oherwydd iddynt gael eu gwrthod tro dwethaf.. Cafwyd tipyn o drafodaeth eto am hyn a phenderfynwyd dilyn canllawiau a pholisiau Ceredigion. Parhau gyda'r hyn a ddywedwyd eisioes gyda'r cais cynllunio gwreiddiol.

**11. Cyllid**

**11.1 –** Cytunwyd i dalu'r anfonebau ac arwyddwyd y sieciau gan y Cyng Sharon Thomas a'r Cyng Rob Jones.

HMRC - £67.60

Ashmole & Co - £94.50

EDAF Building supplies - £ 2,512.80

Rhydlewis Indoor Bowls - £198.50

Sioe Dyffryn Teifi - £300.00

Neuadd Coedybryn - £300.00

The Solutions Factory - £150.00

Cyflog y Clerc - £270.54

**12. – Materion Ardal**

**12.1 – Brongest** -dwr yn dod allan o'r gwteri rhwng Eglwys Troedyraur a lawr i'r pentref.

**12.2 – Rhydlewis –** Mae dal dwr ar rhiw Blaenwern ac mae'r twll dal ar y ffordd ger yr hen siop.

**12.3 – Coedybryn –** Mae'r dwr rhydlyd ger cware Penrhiwpal yn achosi problem i draffig.

**12.4 –Maesllyn** - Problem dwr eto – wedi gorfod mynd a bagiau tywod i lawr i Nurseries. ( diolch i'r Gadeiryddes am drefu hyn).

**12.5** – Mae llawer o goed wedi cael eu torri ar rhiw Maesllyn felly nid oes dim i atal cerbydau fynd i lawr i dibyn. Gallai hyn achosi damwain felly anen rhyw fath o ffens wedi ei gosod yno o ran diogelwch.

**12.6 –CFfI –** Llongyfarchiadau i Glwb CFfI Pontsain ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Pantomeim a phob lwc iddynt yn rown Cymru yn Llanelli. Hefyd Llongyfarchiadua i GFfI Troedyraur am ddod yn ail yn y gystadleuaeth. Mae cyngerdd ganddynt yn Ysgol Bro Teifi dechrau mis Mawrth.

**13. Cyfarfod Nesaf**

**13.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis ar Ebrill 1af am 7:30yh.

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

SBWilliams ---------------------------------------------------------- 1/4/25. -------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad